Y Ganolfan
Dysgu Cymraeg
Genedlaethol —
National Centre
for Learning Welsh




Haf
Summer
2021

# Newyddion Dysgu Cymraeg
## Learn Welsh Latest

dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CYMRAEG
Dysgu
Learn

## Estyn: Y Ganolfan yn cyfrannu'n effeithiol at y nod o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg

Mae adroddiad Estyn ar y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn canmol arweiniad cadarn a phendant y sefydliad, sy'n cadw budd dysgwyr yn ganolog i'w holl weithgarwch.

Yn ôl yr adroddiad, mae gan y Ganolfan "weledigaeth glir i weddnewid tirlun ieithyddol Cymru drwy gefnogi dysgwyr i ddod yn ddefnyddwyr y Gymraeg," gan gyfrannu'n effeithiol at nod Llywodraeth Cymru o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Darllenwch adroddiad Estyn.

## Estyn: National Centre contributes effectively to the aim of achieving a million Welsh speakers

The Estyn report on the National Centre for Learning Welsh has praised the organisation's robust and decisive leadership, which keeps learners' interests at the heart of all of its activity.

According to the report, the Centre has a "clear vision to transform the linguistic landscape of Wales by supporting learners to become users of the Welsh language," thus contributing effectively to the Welsh Government's aim of achieving a million Welsh speakers by 2050.

Read Estyn's report.

Estyn

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

## Cynllun Strategol 2021-2026 – ymgynghoriad cyhoeddus

Mae'r Ganolfan yn croesawu sylwadau ar ei chynllun strategol newydd, sy'n gosod cyfeiriad i'r sector Dysgu Cymraeg ar gyfer 2021-2026. Mae'r cynllun wedi'i lunio mewn ymgynghoriad â darparwyr cyrsiau a Byrddau Cwmni ac Ymgynghorol y Ganolfan. Byddwn yn ceisio barn unigolion a sefydliadau, cyn cyflwyno fersiwn terfynol erbyn yr haf.

Mae mwy o wybodaeth ar gael yma.

## Strategic Plan 2021-2026 – public consultation

The Centre welcomes comments on its new strategic plan, which sets the direction for the Learn Welsh sector for 2021-2026. The plan has been developed in consultation with the Centre's course providers and Company and Advisory Boards. We are seeking the opinions of individuals and organisations before presenting the final version by the summer of 2021.

More information is available here.

---

## Adfer cyllideb cynllun Cymraeg Gwaith

Derbyniwyd newyddion da bod cyllideb Cymraeg Gwaith ar gyfer 2021-22 wedi ei hadfer yn dilyn toriad sylweddol y llynedd o ganlyniad i'r pandemig. Bydd ystod o gyrsiau ar gael, gan gynnwys cyrsiau hunan-astudio estynedig newydd ar lefel Mynediad, Sylfaen a Chanolradd. Byddwn yn parhau i gynnig cyrsiau Codi Hyder a defnyddio'r Gymraeg, ac yn cyflwyno cynlluniau sectorol newydd yn y byd Addysg ac Iechyd. Bydd partneriaeth newydd gyda SaySomethingInWelsh yn ymestyn y dewis ymhellach i'n dysgwyr.

## Work Welsh programme – restoration of budget

The Centre is pleased to report that its Work Welsh budget for 2021-2022 has been restored following a significant cut last year due to the pandemic. A range of courses will be available, including new extended self-study courses at Entry, Foundation and Intermediate levels. We will continue to offer courses to build confidence and support learners to use their Welsh, and will introduce new sectoral schemes in Education and Health. A new partnership with SaySomethingInWelsh will further increase the choice for our learners.

## Gig Gwyneth Glyn a Sadwrn Siarad cenedlaethol

Bydd gig arbennig gyda'r gantores Gwyneth Glyn yn cloi Sadwrn Siarad cenedlaethol, sy'n cael ei gynnal yn rhithiol ar 1 Mai. Mae disgwyl i dros 600 o ddysgwyr ymuno yn y digwyddiad, sy'n cyfuno gwersi gyda chyfleoedd i fwynhau sgwrsio yn y Gymraeg. Bydd y gig yn cael ei ddangos ar dudalen Facebook y Ganolfan a llwyfan AM.

## National language workshop and music gig with Gwyneth Glyn

An exclusive music gig with singer/songwriter Gwyneth Glyn will close a National 'Sadwrn Siarad', a one-day language workshop held virtually on 1 May. Over 600 learners are expected to join the event, which combines lessons with opportunities to chat in Welsh. The gig will be shown on the Centre's Facebook page and the AM platform.

